Adran Gwaith a Phensiynau

# Pensiynau'r Wladwriaeth ac ysgariad neu ddiddymiad. Cais am brisiad

## Ffyrdd eraill o gyfathrebu â ni

Os oes angen braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, Hawdd i'w Ddarllen, sain neu rywbeth arall arnoch, cysylltwch â ni ar 0800 731 0175.

Os ydych yn defnyddio Relay UK, deialwch 18001 ac yna ein rhif ffôn.

Os ydych yn cael ysgariad neu mae eich partneriaeth sifil yn dod i ben, gall y llys drin eich Pensiwn y Wladwriaeth fel ased ariannol. Byddant yn penderfynu a ddylid rhannu peth o'ch Pensiwn y Wladwriaeth â chyn-ŵr, gwraig neu bartner sifil. Bydd y llys angen manylion Pensiwn y Wladwriaeth a gewch neu y gallech ei gael. Byddant yn gwneud penderfyniad a elwir yn orchymyn rhannu pensiwn

## Pa ran o'ch pensiwn y gellir ei rhannu

Bydd hyn yn dibynnu pryd y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac a ydych yn cael yr hen Bensiwn y Wladwriaeth neu'r newydd.

Pe baech yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth **cyn** 6 Ebrill 2016 gellid rhannu eich Pensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth. Dyma'r swm a delir ar ben unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth sylfaenol a Budd-dal Ymddeoliad Graddedig ac mae'n seiliedig ar eich enillion.

Os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth **ar neu ar ôl** 6 Ebrill 2016 a bod eich achos ysgariad neu ddiddymiad wedi dechrau **ar neu ar ôl** 6 Ebrill 2016, yna gellid rhannu'ch Taliad a Ddiogelir. Mae eich Taliad a Ddiogelir yn swm a delir ar ben cyfradd wythnosol safonol Pensiwn newydd y Wladwriaeth. I ddarganfod mwy am hyn, ewch i
**www.gov.uk/pensiwn-y-wladwriaeth-newydd/sut-maen-cael-ei-gyfrifo**

Er mwyn helpu gyda'r newid rhwng yr hen Bensiwn y Wladwriaeth a'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth, mae yna rai rheolau dros dro. Mae'r rheolau hyn yn golygu, os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth **ar neu ar ôl** 6 Ebrill 2016 ond bod eich achos ysgariad wedi dechrau **cyn** y dyddiad, yna bydd y swm Pensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth yn cael ei rannu.

## Beth sy'n digwydd i'ch pensiwn y wladwriaeth os yw'r llys yn gwneud gorchymyn rhannu pensiwn

Gall unrhyw swm Pensiwn y Wladwriaeth neu Daliad a Ddiogelir ychwanegol a gewch fynd i fyny neu i lawr yn dibynnu ar benderfyniad y llys.

## Beth sydd angen i chi ei wneud

Ar ôl i ni gael eich ffurflen wedi'i chwblhau, rydym yn defnyddio'ch swm Pensiwn y Wladwriaeth neu Daliad a Ddiogelir ychwanegol i gyfrifo prisiad o werth eich pensiwn. Rydym yn galw hwn yn Werth sy'n Cyfateb i Arian Parod. Byddwn yn dweud y swm hwn wrthych pan anfonwn eich llythyr prisio atoch.

I gael y Gwerth sy'n cyfateb i Arian Parod mae angen gwybodaeth gennych a'r person arall sy'n ymwneud â'r ysgariad neu'r diddymiad. Mae angen i'r ddau ohonoch gwblhau copi eich hun o'r ffurflen BR20NSPW a'i hanfon atom.

Llenwch bob rhan o'r ffurflen yn llawn gydag inc du a LLYTHRENNAU BRAS, gan roi cymaint o wybodaeth â phosibl. Mae'n bwysig darparu'r dyddiad dechrau'r achos ysgariad neu ddiddymiad yn gwestiwn 8.

Yna ei hanfon i:
The Pension Service 9
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 1LU

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch ni ar 0800 731 0175.

## Chi

Dywedwch wrthym amdanoch chi eich hun. Llenwch y ffurflen hon gydag inc du ac mewn LLYTHRENNAU BRAS.

**01** **Enw cyntaf**

**02** **Ail enw**

**03** **Rhif Yswiriant Gwladol (YG)**

**04** **Dyddiad geni**

DD/MM/BBBB

**05** **Cyfeiriad**

Cod post

**06** **Rhif ffôn y gallwn gysylltu â chi arno**

**07** **Ydych chi erioed wedi gweithio neu wedi talu Yswiriant Gwladol yn Ynys Manaw?**

☐ Na

☐ Ydw

## Eich ysgariad neu ddiddymiad partneriaeth sifil i ddod

**08** **Rhowch y dyddiad y dechreuodd y gweithrediadau ysgariad neu ddiddymiad eich partneriaeth sifil.**

**09** **Ydych chi yn ysgaru neu ddiddymu eich partneriaeth sifil o dan Gyfraith Priodasol Yr Alban?**

☐ Na

☐ Ydw

Rhowch y dyddiad perthnasol.

Y dyddiad perthnasol yw unai:

- y dyddiad y gwnaethoch chi a'ch priod neu bartner sifil roi'r gorau i fyw gyda'ch gilydd, neu
- y dyddiad y cyflwynwyd y gwŷs i ysgaru neu ddiddymu partneriaeth sifil, pa un bynnag oedd gynharaf.

## Eich priod neu bartner sifil

**10** **Enw cyntaf**

**11** **Ail enw**

**12** **Rhif Yswiriant Gwladol (YG)**

**13** **Dyddiad geni**

DD/MM/BBBB

**14** **Cyfeiriad**

Cod post

**15** **Dyddiad priodi neu ffurfio partneriaeth sifil**

Os ydych chi wedi trosi neu newid eich partneriaeth sifil i briodas, neu briodi eich partner sifil, nodwch y dyddiad mae eich priodas yn cael ei thrin fel ei fod yn dechrau.

**16** **A yw eich priod neu bartner sifil erioed wedi gweithio yn Ynys Manaw?**

- ☐ Na
- ☐ Ydy

## Eich cynrychiolydd neu gynghorwr cyfreithiol

Os ydych eisiau eich Gwerth sy’n Cyfateb i Arian Parod gael ei anfon at rywun arall, dywedwch wrthym amdanynt.

**17** **Enw**

**18** **Enw’r sefydliad**

Os yw hyn yn berthnasol.

**19** **Cyfeiriad**

Cod post

**20** **Rhif ffôn**

**21** **Rhif cyfeirnod**

## Datganiad

Rwyf yn datgan bod y wybodaeth a roddais ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy nghwybodaeth am cred.

**Eich llofnod**

**Dyddiad**

## Rhagor o wybodaeth

### Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Deddf Cydraddoldeb' ar **www.gov.uk**

### Costau galwadau

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o ffonau symudol personol a llinellau daear.

### Sut mae Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch efallai y byddwn yn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Efallai byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o'n dibenion fel y mae'r gyfraith yn caniatáu i wirio'r wybodaeth byddwch yn ei darparu a gwella ein gwasanaethau. Efallai byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i amddiffyn rhag trosedd.

Os ydych wedi cynnwys gwybodaeth bersonol oedolyn arall, dylech roi gwybod iddynt.

I gael gwybod mwy am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny, a'ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, ewch i
**www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-bersonol**

### Official DWP social media channels

- **www.youtube.com/dwp**
- **www.facebook.com/dwp**
- **www.x.com/dwpgovuk**
- **www.instagram.com/dwpgovuk**
- **www.linkedin.com/company/dwp**

### DWP British Sign Language (BSL) videos

**www.youtube.com/dwpsign**